Pwyllgor Datblygu Economaidd

Adroddiad i'r Cyfarfod Llawn o Dan Reol Sefydlog 9.9

Ebrill 2000 hyd at Fawrth 2001

Cyflwyniad

1. Mae'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn un o saith pwyllgor pwnc Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Nodir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol, y gwelir rhan ohonynt yn Atodiad A.

2. Gwneir yr adroddiad hwn o dan Reol Sefydlog 9.9, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgorau Pwnc adrodd i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd ynglyn â'u cynnydd o ran cyflawni eu Blaen-raglen Waith. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â gweithgareddau'r Pwyllgor o fis Ebrill 2000 hyd at ddiwedd tymor y gwanwyn 2001.

Aelodaeth y Pwyllgor

3. Cadeirydd y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn oedd Val Feld. Ei aelodau eraill ar hyn o bryd yw Alun Cairns, Chris Chapman, Glyn Davies, Ron Davies, Mike German (y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd), Chris Gwyther, Alison Halford, Brian Hancock, Dafydd Wigley a Phil Williams.

4. Newidiodd aelodaeth y Pwyllgor yn ystod y cyfnod: ym mis Ebrill 2000 roedd iddo 9 aelod a chynyddodd y nifer i 11 o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd ymlaen. Cafwyd newidiadau hefyd o ran y bobl sy'n gwasanaethu'r Pwyllgor ar ôl i Brian Gibbons, Helen Mary Jones, a Rhodri Morgan (fel Prif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) roi'r gorau iddi ar ôl bod yn aelodau am ran o'r flwyddyn.

Cylch Gorchwyl y Pwyllgor

5. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn seiliedig ar bortffolio'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Buddsoddi mewnol a masnach, hyrwyddo cwmnïau brodorol a datblygu rhanbarthol;
- Materion economaidd Ewropeaidd, gan gynnwys y cronfeydd strwythurol;
- Arloesi, ynni a datblygiadau TGCh yn y sector busnes;
- Polisïau diwydiannol a chymorth busnes, gan gynnwys materion cyflogaeth o ochr y galw (isafswm cyflog, amseroedd gweithio, etc);
- Twristiaeth.

6. Mae hyn yn cynnwys arolygu Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) a Bwrdd Croeso Cymru.

Blaenoriaethau'r Pwyllgor

7. Nodwyd blaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn yn ei Flaen-raglen Waith ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mai 2000 a mis Rhagfyr 2001. Roedd y rhain y deillio o gamau gweithredu a nodwyd yn "Gwell Cymru" a oedd yn nodi nifer o faterion y dylai'r Cynulliad fynd i'r afael â hwy ar frys. Cytunodd y Pwyllgor i gymryd rhan yn y broses o ddatblygu'r camau a nodwyd ym Mhennod 5 ‘Gwell economi, economi gryfach' ac ym Mhennod 4 ‘Gwell cyfleoedd dysgu'. Yn arbennig:

- Strategaeth datblygu economaidd genedlaethol i hybu swyddi a mentergarwch
- Strategaeth Ewropeaidd effeithiol a chorff newydd i helpu i'w chyflwyno
- Cronfa ddatblygu i helpu busnesau bach a chanolig
- Gwasanaeth allforio wedi'i ailwampio ac ymgyrch farchnata fodern i Gymru
- Strategaeth yr oes wybodaeth i helpu Cymru gyfan i fanteisio ar yr uwch-briffordd wybodaeth
- Gwell cysylltiadau rhwng addysg a busnes
- Hyrwyddo mentergarwch

Cyfarfodydd a gynhaliwyd

8. Erbyn diwedd tymor y gwanwyn 2001 (cynhaliwyd y cyfarfod olaf ar 4 Ebrill) roedd y Pwyllgor wedi cynnal 18 o gyfarfodydd rheolaidd – yr oedd 3 ohonynt yn golygu cydweithio â phwyllgorau pwnc eraill. Yn ogystal, cynhaliodd sesiynau briffio anffurfiol ar sawl achlysur gan gynnwys un ar ei waith ar yr Adolygiad o Gymorth Busnes a'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol. Cyfarfu hefyd â Phwyllgor Masnach a Buddsoddi Economaidd Cynulliad Gogledd Iwerddon am drafodaeth anffurfiol yn ystod ei ymweliad â Chymru.

9. Aeth y Pwyllgor, yng nghyswllt Adolygiad yn bennaf, ar ymweliadau i Iwerddon a Brwsel i gwrdd â chynrychiolwyr nifer o wledydd Ewropeaidd. Cynhaliodd hefyd brosesau ymgynghori eang ag eraill ym maes datblygu economaidd o fewn y DU. Cafodd manylion y gwaith hwn eu cynnwys yn Adroddiad y Pwyllgor ac amgaeir darn ohono yn Atodiad B.

Dull Gweithred

10. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i ddatblygu ei ddull agored a chynhwysol o weithredu. Bu'n awyddus i glywed gan sefydliadau sy'n ymwneud â datblygu economaidd ac i gydweithio'n agos â hwy a threfnodd gyfarfodydd gydag amrywiaeth eang o gyrff. Ceir manylion y rhain yn Atodiad B ac mewn rhannau eraill o'r adroddiad o ran agweddau eraill ar y gwaith.

11. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pa mor gyflym y mae'r economi'n symud ac mae wedi gwneud dilyn pynciau llosg a materion sy'n codi yn un o'i flaenoriaethau. Er mwyn gwneud hyn, trefnodd ei agenda'n hyblyg – gan gadw cydbwysedd rhwng yr angen i ystyried datblygiadau presennol yr economi gyfan yn ofalus a'r angen i fod yn ymwybodol o faterion brys ac ymateb iddynt ar unwaith.

12. Yn arbennig, cytunodd yr Aelodau y dylai'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd wneud adroddiad ar y datblygiadau ymhob cyfarfod ac y dylai gyflwyno ei adroddiad ysgrifenedig cyn gynted â phosibl cyn y cyfarfod er mwyn sicrhau ei fod mor ddiweddar â phosibl. Cyfarfu'r Pwyllgor ddwywaith, fyr rybudd, i gynnal trafodaethau ar feddiannu cwmni Hyder. Cyfarfu â chynrychiolwyr o Corus, a'r ISTC, i ganfod yr wybodaeth ddiweddaraf ar sefyllfa sy'n newid yn gyflym ac sy'n effeithio ar y diwydiant dur yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi bod ar bigau'r drain i ystyried pecyn cymorth arfaethedig y Cynulliad gyda phwyllgorau eraill, ond gohiriwyd cyhoeddi hwn ar gais yr undebau. Yn fwy diweddar, cynhaliodd y Pwyllgor drafodaeth frys a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r WDA, y Bwrdd Croeso ac Awdurdod Twristiaeth Prydain (BTA) ar effaith clwy'r traed a'r genau ar economi an-amaethyddol Cymru.

13. Gweithiodd y Pwyllgor yn agos â Phwyllgorau eraill – cynhaliwyd trafodaethau Glas Cymru ar y cyd â Phwyllgor yr Amgylchedd a Chynllunio. Mae hefyd yn bwriadu cynnal trafodaethau a'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes os bydd y colledion swyddi a fygythiwyd gan Corus digwydd, ac ar eu hadolygiad o addysg uwch. Gwahoddwyd yr aelodau hefyd i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig pan oedd yn cymryd tystiolaeth yn ymwneud â'i Adolygiad o Amrywiaeth Economaidd Gwledig. Ystyriodd y Pwyllgor botensial economaidd y sector diwylliannol mewn trafodaeth ar adroddiad 'Diwylliant Cytûn' y Pwyllgor Diwylliant.

Gwaith a Chyflawniadau dros y flwyddyn ddiwethaf

14. Canolbwyntiodd gwaith y Pwyllgor dros y flwyddyn ddiwethaf ar nifer o feysydd allweddol:

RhS 9.7(i) – cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn atebol i'r Cynulliad amdanynt;

Adolygiad o Gymorth a Datblygu Busnes

15. Mae Atodiad B yn rhoi manylion y gwaith a gafodd ei wneud yn yr adolygiad hwn. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiadau ym mis Chwefror 2001 ac fe'i trafodwyd yn y cyfarfod llawn ar 8fed Chwefror. Yn dilyn hyn lansiodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd broses ymgynghori y bwriedir iddi

ddod i ben ddechrau mis Mai.

16. Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion pwysig. Roedd yn annog, yn arbennig, sefydlu Bwrdd Polisi Economaidd i oruchwylio gweithredu a datblygu cymorth i fusnesau a sefydlu Porth Cymorth i Fusnesau fel man cychwyn pob cymorth i fusnesau. Cynigiodd y dylid rheoli'r olaf o'r rhain drwy'r Awdurdod Datblygu. Ceir manylion pellach am y rhain ac argymhellion eraill y Pwyllgor yn adroddiad yr adolygiad.

Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol

17. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod ar Gymru angen Strategaeth Datblygu Economaidd glir ac mae'n treulio cryn dipyn o'i amser yn cynorthwyo'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd i ddatblygu hon. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd nifer o gyfarfodydd i ystyried blaenoriaethau'r strategaeth a materion manylach. Clywodd dystiolaeth gan y Gwasanaeth Cyflogi ac Anabledd Cymru mewn cyfarfod yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n rhwystro gweithgarwch economaidd. Dro arall, trafododd bapur Adrannol ar ddatblygu cynaliadwy a phapur ar ynni adnewyddadwy. Yn fwy diweddar gwrandodd ar farn Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru. Ystyriodd hefyd bapurau ar flaenoriaethau sectoraidd gan gynnwys asesiad trylwyr o rôl ac effaith canolfannau galw yng Nghymru.

18. Daeth y cam cyntaf o ddatblygu'r Strategaeth i ben y mis Chwefror pan gyflwynodd y Gweinidog yr adroddiad yn y cyfarfod llawn fel sail ar gyfer ymgynghori. Mynegodd yr aelodau eu pryderon am yr adroddiad yn ei ffurf bresennol ond nodwyd mai bwriad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd oedd ei gyhoeddi fel sail ar gyfer ymgynghori pellach. Mae'r Pwyllgor a'r Gweinidog yn cydnabod mai dim ond y cam cyntaf yn y broses o ddatblygu strategaeth economaidd yw hyn ac mae'r Pwyllgor yn bwriadu parhau i gyfarfod sefydliadau allanol a gwrando ar eu safbwyntiau er mwyn gwella a datblygu'r gwaith hwn.

19. Mynegodd y Pwyllgor ddymuniad cryf i ddatblygu cynlluniau cymorth gweithredol yng Nghymru a galwodd ar y Gweinidog i ganiatáu i'r Cynulliad gyflwyno cynlluniau o'r fath.

RhS 9.7(ii) – cadw llygad ar y gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu.

Cronfeydd Strwythurol Ewrop

20. Mae'r Pwyllgor Datblygu Economaidd wedi cymryd rhan flaenllaw yn y broses o ddatblygu rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewrop, a dros y flwyddyn mae wedi ystyried a rhoi cyngor ar ddogfennau cronfeydd strwythurol y Cynulliad sawl gwaith.

21. Teimla'r Pwyllgor ei bod yn hanfodol parhau i gynnal trosolwg o ddatblygiadau'r cronfeydd, ac yn ogystal â thrafod y datblygiadau â'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, mae'n derbyn adroddiadau rheolaidd gan Brif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) a chan Gadeiryddion y

Pwyllgorau Monitro Rhaglenni (PMC). Agorodd Cadeirydd y Pwyllgor, ynghyd â'r Gweinidog, gyfres o gyfarfodydd Cadeiryddion a chynrychiolwyr y PMC ar gyfer Amcan 1, 2 a 3.

22. Mae'n rhaid gwneud mwy i ddatblygu a gwella'r modd y mae'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn cynnal trosolwg gweithredol o'r datblygiadau ynglyn â'r cronfeydd strwythurol tra'n cydnabod cyfrifoldebau ac atebolrwydd ffurfiol WEFO a'r PMC.

Cyllideb Datblygu Economaidd

23. Cymerodd y Pwyllgor ran flaenllaw yn y broses o sefydlu'r blaenoriaethau ar gyfer cyllideb datblygu economaidd y Cynulliad, o ystyried papur ar flaenoriaethau yn haf 2000 i archwilio'r gyllideb fanwl ddrafft yn yr hydref. Bydd hefyd yn derbyn adroddiadau gan y Gweinidog ar ôl i newidiadau gael eu gwneud yn ystod y flwyddyn ac mae'n parhau i ymwneud â newidiadau ar gyfer y dyfodol.

24. Nododd y Pwyllgor yr angen i gael mwy o eglurder wrth nodi ffynonellau arian cyfatebol a chydnabu y byddai absenoldeb arian cyfatebol llawn gan Drysorlys ei Mawrhydi yn golygu y byddai rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yn llai effeithiol nag y byddent fel arall.

25. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i sicrhau mwy o eglurder o ran ffynonellau a dosbarthiad yr adnoddau a ddefnyddir i fynd i'r afael â chanlyniadau cau Corus.

Y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol

26. Un o flaenoriaethau'r Pwyllgor yw cael gwybodaeth gadarn i seilio ei waith monitro a chynllunio economaidd arni. Mae wedi ystyried papurau gan y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol ar ddatblygiadau or ran yr wybodaeth a gasglwyd ac yn derbyn adroddiadau rheolaidd ganddynt ar hyn.

Cymorth Dethol Rhanbarthol

27. Ystyriodd y Pwyllgor bapur manwl ar y modd y mae Cymorth Dethol Rhanbarthol yn gweithredu yng Nghymru ac mae wedi ystyried yr opsiynau ar gyfer ei ddatblygu. Gofynnodd y Pwyllgor am adroddiadau rheolaidd fel y gall gadw golwg cyson ar y cymorth a ddarperir i fusnesau yng Nghymru, ac ar y cynllun a'r ffordd y mae'n gweithredu.

RhS 9.7(iii) – cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat:

Awdurdod Datblygu Cymru

28. Mae'r Pwyllgor yn gweithio'n agos gydag Awdurdod Datblygu Cymru. Yn yr hydref rhoddodd ystyriaeth i Adolygiad Hanner Blwyddyn a Chynllun Corfforaethol Drafft y WDA a thrafododd y rhain

gyda'i Gadeirydd a'i Brif Weithredwr. Yn fwy diweddar derbyniodd y Pwyllgor Gynllun Busnes Drafft y WDA a chynghorodd y broses o ddrafftio llythyr arweiniad strategol y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd i'r WDA wrth iddo lunio ei gynllun Corfforaethol ar gyfer 2003-2004 i 2004-2005. Ar yr un pryd, bu'r Cynulliad yn cynnal Adolygiad Pum Mlynedd o'r WDA ac yn yr Hydref gwnaeth y Pwyllgor sylwadau ar ganlyniadau'r cam cyntaf, ac yn fwy diweddar ystyriodd adroddiad terfynol yr Adolygiad.

Bwrdd Croeso Cymru

29. Ystyriodd y Pwyllgor yr Adolygiad o Gyflawniadau Bwrdd Croeso Cymru, gyda'i Gadeirydd a'i Brif Weithredwr. Yn fwy diweddar ystyriodd flaen-raglen y Bwrdd Croeso a chynghorodd y Gweinidog ar ei lythyr cylch gorchwyl i'r Bwrdd ar gyfer 2001-2002.

Bae Caerdydd

30. Mae'r Pwyllgor yn parhau i bryderu am y trefniadau ar gyfer datblygu Bae Caerdydd a'r morglawdd yn dilyn dirwyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ben. Yn yr hydref derbyniodd yr wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau gan yr Arglwydd Faer a bu'n aros i weld Cynllun Busnes Awdurdod yr Harbwr. Yn anffodus, gohiriwyd cwblhau hwn ond mae'r Pwyllgor yn disgwyl ei dderbyn yn fuan ar ôl y Pasg. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ystyried a gwneud sylwadau yn ddiweddar ar adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar Forglawdd Bae Caerdydd.

RhS 9.8 – cyfrifoldebau eraill

Y Mesur Diwygio Rheoleiddiol

31. Mewn ymateb i gais gan y Cyfarfod Llawn, ystyriodd y Pwyllgor fesur diwygio rheoleiddiol arfaethedig y Llywodraeth a gyhoeddwyd yn araith y Frenhines. Cynghorodd y cyfarfod llawn ar hwn.

Blaen-raglen Waith

32. Ar adeg ysgrifennu'r papur hwn, mae'r Pwyllgor wrthi'n rhoi'r wedd derfynol ar ei raglen waith ar gyfer mis Mai 2001 hyd at fis Rhagfyr 2002. Datblygwyd ei flaenoriaethau o rai'r llynedd. Yn unol â'i swyddogaethau archwilio, bydd yn parhau i gynnal trosolwg fanwl o swyddogaethau'r Gweinidog Datblygu Economaidd a throsolwg fanwl o'r modd y datblygir rhaglenni'r cronfeydd strwythurol ac y gweithredir y WDA a'r Bwrdd Croeso.

33. O ran datblygu polisïau mae'n bwriadu datblygu'r gwaith a gychwynnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf – gweithredu ei gynigion o'r adolygiad o ddatblygu busnes, a parhau i ddatblygu'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol. Bydd hefyd yn ymgymryd ag adolygiad newydd ar sail polisi ynni gan ganolbwyntio ar gynaladwyedd drwy gyfrwng ffynonellau adnewyddadwy a thechnolegau glân.

Atodiadau

A. Cyfrifoldebau'r Pwyllgorau Pwnc

B. Rhan o'r Adolygiad o Wasanaethau Cymorth a Datblygu Busnes